# Pembrokeshire Public Services Board
# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth 24 Medi 2019 am 10.00.a.m.**
**Swyddfeydd APCAP, Parc Llanion, Doc Penfro**

**Yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, APCAP (Cadeirydd) |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, PAVS (Is-gadeirydd) |
| Jonathan Feild | Rheolwr Cyflogwyr a Phartneriaeth, DWP |
| Sarah Jennings (SJ) | Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwasanaethau Corfforaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Ros Jervis | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, BIP Hywel Dda (cyrhaeddodd 10.25 am) |
| Maria Battle | Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (gadaawodd 12.15 pm) |
| Kevin Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Andrea Winterton | Rheolwr Gweithrediadau De Orllewin Sir Benfro, y Môr a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Anna Bird | Pennaeth Datblygu Partneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Dr Steven Jones (SPJ) | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, CSP (gadawodd 10.45 am) |
| Iwan Thomas | Prif Swyddog Gweithredol, PLANED |
| Elaine Lorton | Cyfarwyddwr y Sir, Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (gadawodd 12.00 pm) |
| Paul Ashley-Jones | Pennaeth Caffael a Gwasanaethau Cwsmeriaid, CSP |
| Martyn Palfreman | Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, WWCP |
| Dave Evans | Dirprwy Brifathro Coleg Sir Benfro (gadawodd 11.50am) |
| Natalie Pearson | Pennaeth Ymgysylltu, Llywodraeth Cymru |
| Elwyn Williams | Is-gadeirydd Awdurdod Tân CGC |
| Diane Lockley | Cadeirydd Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru Lleol |

*Cymorth/Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Lynne Richards | Cydgysylltydd Cefnogi Partneriaethau a Chraffu CSP |

*Yn bresennol*

| | |
|---|---|
| Amy Richmond-Jones | Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Ian Westley | Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro |
| Andy Jones | Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau |
| Cris Tomos | Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Iaith Gymraeg |
| Supt. Ross Evans | Heddlu Dyfed Powys |
| Barry Walters | Prifathro, Coleg Sir Benfro |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.10 am.

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrwyd uchod.

Ar ran y BGC, mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad gydag IW ar ei brofedigaeth ddiweddar. O ganlyniad i hyn, ac absenoldeb Aelod o'r Cabinet i gynrychioli CSP, roedd yna broblem o ran niferoedd y cyfarfod, gan fod Cylch Gorchwyl y BGC yn nodi y dylai'r BGC gael ei gynrychioli gan y Prif Weithredwr (neu ei gynrychiolydd) yn ogystal â'r Arweinydd neu'r Aelod Cabinet a benodwyd. Awgrymodd TJ felly y dylai unrhyw argymhellion i'r Bwrdd gytuno arnynt gael eu cylchredeg i gynrychiolwyr CSP i'w **LR**
cymeradwyo ar ôl y cyfarfod. Cytunodd SPJ a'r partneriaid statudol eraill a oedd yn bresennol.

Oherwydd absenoldeb cynrychiolwyr CSP, ynghyd ag ymddiheuriadau gan bartneriaid eraill, awgrymodd TJ hefyd y dylid gohirio'r gweithdy tan y cyfarfod nesaf, ac roedd y partneriaid yn cytuno â hynny.

Yna treuliodd y partneriaid ychydig o amser yn trafod y berthynas wrthgyferbyniol a'r ffocws gwahanol rhwng cyrff adolygu a chyrff allanol fel SAC a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Nodwyd cymhlethdod lefelau mewnbwn allanol mewn perthynas â'r Ddeddf ac y dylai BGCau ddychwelyd at yr hanfodion o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2019 fel cofnod cywir.

## 3. Cofnod Lweithred

Roedd yr holl gamau wedi'u cwblhau ar wahân i;

*6 – Pob un o arweinwyr y prosiect i roi ymateb o ran eu maes prosiect i sylwadau ac awgrymiadau'r Cynulliad ieuenctid ar y Cynllun Llesiant*

Byddai LR yn ailddosbarthu'r ddogfen ar gyfer sylwadau. **LR**

*7 – Polisi CSP ar ganiatáu absenoldeb ychwanegol i Ofalwyr Maeth i gael ei gylchredeg ar ôl cael cadarnhad y gellir caniatáu hyn*

Ni dderbyniwyd cadarnhad, LR i olrhain hynny. **LR**

O ran Cam Gweithredu 5 i wahodd cynrychiolydd o'r Cynulliad Ieuenctid i'r sesiwn gweithdai, awgrymwyd y gellid cynnal rhai elfennau o'r gweithdy gyda'r Cynulliad Ieuenctid yn eu cyfarfod nesaf ar 23 Hydref, ac y gellid integreiddio eu hadborth gyda'r gweithdy ym mis Tachwedd. Cytunwyd ar yr awgrym hwn. Byddai LR yn mynd ati i **LR**
drefnu.

Yna, trafododd aelodau'r BGC gynnwys grwpiau eraill o bobl ifanc yng ngwaith y BGC, e.e. y rhai nad oeddent yn ymwneud â'r Cynulliad Ieuenctid, NEET ac ati. Nododd y partneriaid fod amryw o brosiectau a threfniadau wedi'u sefydlu a oedd wedi neu a allai

**NE**

gasglu meddyliau'r grwpiau hyn o bobl ifanc ynghyd. Cytunwyd y dylid ychwanegu eitem at agenda'r cyfarfod nesaf i drafod cynnwys pobl ifanc mewn manylder.

## 4. Datblygu ardaloedd a chymunedau integredig yn Sir Benfro

Rhoddodd EL drosolwg o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn i ddatblygu ardaloedd a chymunedau integredig yn Sir Benfro. Nododd fod rhagor i'w wneud os am gysylltu'n ehangach â'r boblogaeth gyfan gan fod y rhan fwyaf o'r gwaith hyd yma wedi canolbwyntio ar oedolion hŷn. Hefyd, rhoddodd EL ddiweddariad cryno o'r gwaith a wnaed yn Aberdaugleddau i ddod â chudd-wybodaeth ac ymateb ynghyd, a nododd fod trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda'r Gwasanaeth Tân.

Cytunodd RJ fod y Bwrdd Iechyd hyd yma wedi canolbwyntio'n bennaf ar y boblogaeth hŷn a'r rhai ag anghenion cymhleth ond bod gwir angen symud tuag at y cwrs bywyd cyfan a phobl ifanc yn arbennig.

Yna, trafododd y partneriaid gynnwys pobl ifanc yn eu gwaith sefydliadol ac yng ngwaith y BGC, yn enwedig y rhai nad ydynt yn ymwneud â'r fforymau ieuenctid arferol. **NP**
Dywedodd NP y byddai'n trafod brwdfrydedd y BGC yn y maes hwn gyda'r Prif Weinidog, ac awgrymodd y gallai Sir Benfro dreialu dull o ddod â safbwyntiau'r grwpiau hyn o bobl ifanc ynghyd. Cytunodd y partneriaid y byddai ganddynt ddiddordeb bod yn rhan o hynny. Cytunodd SJ i baratoi papur ar gyfer y cyfarfod nesaf a fyddai'n tynnu sylw at yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn Sir Benfro o ran casglu barn pobl ifanc.
Nododd DE fod Bethany Roberts yn ddiweddar wedi ennill lle yn Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, a bod Mair Elliot, sydd bellach yn Gadeirydd Hafal, wedi bod yn ymwneud â chynhyrchu ap iechyd meddwl. Awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol cael barn y ddwy ar gyfer y darn hwn o waith.

Dywedodd EL ei bod yn awyddus hefyd i gychwyn trafodaethau gydag oedolion sy'n gweithio ac sydd â bywydau prysur, gan olygu nad oedd eu barn yn cael ei chlywed bob amser, yn ogystal â gyda gofalwyr. Nododd KJ ei fod yn cefnogi dull y Bwrdd Iechyd yn Aberdaugleddau a bod y prosiect yn rhywbeth yr oedd yn awyddus i'w ddatblygu.

Gofynnodd TJ a oedd unrhyw ddiweddariad ar wasanaethau integredig yn Abergwaun yn dilyn cyflwyniad y Cynghorydd Pat Davies i'r BGC yn 2018. Dywedodd EL fod trafodaethau pellach wedi'u cynnal ond nid oedd unrhyw beth penodol i'w roi'n ddiweddariad i'r partneriaid ar hyn o bryd. Nododd fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda rhanddeiliaid ynghylch â'r posibilrwydd o rannu gogledd y Sir yn ddwy ardal ar wahân, ond y byddai ganddi ddiweddariad manylach ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 5. Cyflwyniad ar Ymweliad â Bromley by Bow

Rhoddodd SJ gyflwyniad i bartneriaid ar ymweliad gan gydweithwyr Iechyd a chynrychiolwyr o Gyngor Ceredigion i'r Ganolfan Bromley by Bow yn Llundain, i dynnu sylw at enghraifft o ymagwedd gyfannol at ddatblygu modelau cymunedol.

Wrth drafod y cyflwyniad, nodwyd bod sawl syniad diddorol o ran cyfleoedd posibl yn y dyfodol wedi'u sbarduno gan yr enghraifft. Nododd MP hefyd y byddai'n ddiddorol craffu ar fanylion datblygiad y Ganolfan ers ei sefydliad. Byddai'r cyflwyniad yn cael ei gylchredeg i'r partneriaid er gwybodaeth. **LR**

## 6. Adeiladu Cyfoeth Lleol

I ddilyn y pwnc a godwyd gan SPJ mewn cyfarfod cynharach o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rhoddodd PA-J ddiweddariad i bartneriaid y BGC ar yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith o feithrin cyfoeth lleol drwy ei weithgarwch caffael. Nododd y byddai'r manteision o symud 1% yn unig o wariant Cynghorau i'r gymuned yn enfawr, a phe gallai partneriaid y BGC gefnogi rhywbeth tebyg o fewn eu sefydliadau yna byddai'r effeithiau'n sylweddol.

Amlinellwyd yr argymhellion yn yr adroddiad ac roedd y partneriaid o blaid cefnogi gwerth cymdeithasol yn Sir Benfro a chytunwyd i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Byddai PA-J yn drafftio e-bost i'w gylchredeg i bartneriaid gan LR, ac ynddo ddolen i offer Llywodraeth Cymru a fyddai'n eu cynorthwyo i gasglu gwybodaeth gaffael berthnasol fel cam cyntaf tuag at gynyddu gwerth cymdeithasol ac adeiladu cyfoeth lleol yn Sir Benfro. **PA-J/LR**

## 7. Cydweithio Rhanbarthol

Nododd MP fod yr ail ddigwyddiad BGC rhanbarthol De a Gorllewin Cymru wedi'i gynnal gan Sir Gaerfyrddin ar 7 Mehefin, gyda chynrychiolwyr BGC o Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol perthnasol sy'n cwmpasu'r ardal.

Bu brwdfrydedd i gydweithio ar brosiectau pan fo hynny'n bosibl, gan benderfynu ar ddulliau adrodd tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo. Rhoddodd MP drosolwg o'r cyflwyniadau a roddwyd ar y diwrnod a nododd na fyddai'r cynigion a amlinellwyd yn ei bapur yn arwain at ddull unffurf o fynd i'r afael â blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant ar draws y pedwar rhanbarth, ond y byddai'n cael ei ddatblygu yn unol â gofynion pob sir. Nodwyd hefyd bod sawl partner yn ymwybodol o'r ffrydiau ariannu y gellid eu defnyddio i gefnogi rhai o'r prosiectau cydweithredol a amlinellwyd.

Amlinellodd MP y meysydd cydweithredu fel a ganlyn;

- TEC
- Ymgysylltu Parhaus
- Datrysiadau Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd
- Cysylltu pobl, cymunedau caredig

O ran datrysiadau cymdeithasol a gwyrdd ar gyfer iechyd, byddai prosiect ar lefel ranbarthol (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Sir Benfro) yn dwyn ynghyd asiantaethau ac unigolion sydd â diddordeb i ddatblygu fframwaith ar gyfer gweithredu. Y cam cyntaf fyddai trefnu gweithdy o randdeiliaid allweddol ar draws y tri BGC a'r RPB, yn ogystal ag unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb.

Nododd MP hefyd y byddai angen, rhyw dro, rhoi ystyriaeth bellach i ddulliau posibl o gydweithredu rhanbarthol ar feysydd cyffredin eraill a nodwyd yn y digwyddiad rhanbarthol ar 7 Mehefin 2019, sef:

- Argyfwng/newid yn yr hinsawdd
- Sero carbon net
- Caffael

- Sgiliau staff
- Asedau.

Roedd partneriaid y BGC yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer bwrw ymlaen â chydweithredu rhanbarthol a chytunwyd y dylid trefnu gweithdy fel man cychwyn i benderfynu sut i gyd-ddylunio fframwaith a fyddai'n caniatáu i'r datblygiad o waith sy'n ymwneud â datrysiadau cymdeithasol a gwyrdd ar gyfer iechyd barhau. Byddai NE yn trafod ymhellach gydag MP Rheolwyr BGC rhanbarthol. **NE**

**8. Cynnig drafft i gefnogi gwell canolfannau cyfathrebu ar gyfer y BGC**

Amlinellodd IT gynnig drafft i PLANED gynorthwyo gyda chyfathrebu a fyddai'n hyrwyddo gwaith y BGC, a hefyd i wella ymgysylltiad drwy sefydlu cyfrif trydar pwrpasol ar gyfer y BGC. Ynghyd â hyn, roedd y cynnig yn awgrymu y dylai partneriaid ystyried creu tudalen we benodol ar eu safleoedd i adlewyrchu cynnwys prif dudalen y BGC.

Holodd SJ ai Twitter yw'r ffordd fwyaf effeithlon o ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ' r cyfryngau cymdeithasol gan fod ymchwil y Bwrdd Iechyd wedi dangos bod Instagram a Facebook yn llwyfannau mwy poblogaidd. Am ychydig, trafododd partneriaid ffyrdd eraill y gellid eu defnyddio i hyrwyddo gwaith y BGC. Gan fod CSP eisoes yn defnyddio'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a drafodwyd, cytunwyd y byddai ymholiadau'n cael eu gwneud ynghylch a allai'r BGC gyfathrebu rhagor trwy'r allfeydd hyn, yn ôl y gofyn ac yn unol â gweithredoedd y prosiect Cynllun Llesiant. **LR**

**9. Dulliau niwtral o ran carbon**

Holodd TJ a ddylid casglu gwybodaeth sylfaenol am yr hyn yr oedd partneriaid y BGC yn ei wneud o ran dulliau carbon niwtral. Dywedodd AW ei bod yn ymwybodol o'r gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn i edrych ar ddulliau gweithredu yn y sector cyhoeddus, gydag adroddiad ar y gwaith hwn i'w gyhoeddi yng Ngwanwyn 2020. Awgrymodd y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno gweithdy rhanbarthol yn amlinellu eu profiadau o'r prosiect peilot carbon positif fel cam cyntaf o edrych ar y mater hwn yn fwy manwl ar draws asiantaethau partner y BGC, cytunodd aelodau'r BGC. Byddai hysbys o ran dyddiadau posibl ar gyfer gweithdy yn cael ei ddosbarthu i bartneriaid cyn gynted â phosibl. **AW**

**10. AOB**

Llongyfarchodd JF CSP ar fod yr Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i gyflawni achrediad Arweinydd Hyderus o ran Anabledd yr Adran Gwaith a Phensiwn. Nododd hefyd fod yr adran gwaith a Phensiynau a Gyrfa Cymru yn gweithio gyda staff Debenhams yn Hwlffordd i'w cyfeirio at swyddi gwag mewn sefydliadau eraill ac i ail-hyfforddi yn dilyn y cyhoeddiad diweddar y byddai'r siop yn cau ganol mis Tachwedd.

Nododd hefyd fod cynnydd da wedi'i wneud o ran y prosiect gweddnewid recriwtio a chyflogaeth. Roedd JF wedi rhoi cyflwyniad ar y prosiect i grŵp prosiect Sir Gaerfyrddin a byddai'n cyflwyno'r un cyflwyniad i'w BGC llawn ym mis Tachwedd. Byddai hefyd yn rhoi cyflwyniad ar y prosiect i'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol mewn digwyddiad ym mis Hydref.

Nododd AW y byddai sesiwn galw heibio yn cael ei gynnal ar 3 Hydref yn Neuadd y Pater, Doc Penfro, a byddai cyfle i randdeiliaid a'r cyhoedd roi adborth ar ddatblygu datganiadau

ardal hyd yn hyn. Nododd y byddai'r rhain yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac awgrymodd gyflwyniad i'r BGC ym mis Mai/Mehefin 2020.

Nododd SL fod PAVS wedi hwyluso cyfarfod trafod yn ddiweddar ynglŷn â'r gwahanol sefydliadau a phartneriaid sy'n cyflwyno cais am Heritage Horizon Award sy'n canolbwyntio ar dirweddau a natur, awgrymodd y gellid cysylltu â thrafodaethau cynharach am newid yn yr hinsawdd.

Rhoddodd SJ y wybodaeth ddiweddaraf i bartneriaid am ddyfarniad a dderbyniwyd gan y '*Dream Team*' fel rhan o waith y Bwrdd Iechyd i drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl. Nododd hefyd fod cynghorau Sir Gaerfyrddin a Cheredigion a'r RPB wedi ymrwymo i'r Siarter Anabledd Dysgu ac awgrymodd y gallai Sir Benfro dderbyn cyflwyniad ar hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35y.h.